PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Strategaeth 2030:
# Y Strategaeth Gynaliadwyedd

| A. Y Berthynas â Strategaeth 2030 | | | |
|---|---|---|---|
| | | Prif | Eilaidd |
| **Colofnau Strategol:** | Rhagoriaeth ymchwil | | ✓ |
| | Addysg drawsnewidiol | | ✓ |
| | Y Gymraeg a diwylliant Cymru | | ✓ |
| | | | |
| **Themâu trawsnewidiol:** | Effaith economaidd, gymdeithasol a dinesig | | ✓ |
| | Ymgysylltu byd-eang | | ✓ |
| | Ein pobl | | ✓ |
| | | | |
| **Yn sail i hyn oll mae…** | Cynaliadwyedd sefydliadol | ✓ | |

| B. Y Berthynas â'r Risgiau Corfforaethol | |
|---|---|
| Risg gorfforaethol 15 | Diffyg cyfeiriad strategol sefydliadol |
| Risg gorfforaethol 29 | Cyfeiriad strategol a gweithgareddau gweithredol sy'n anghyson â nodau datblygiad cynaliadwy |

| C. Llywodraethu | |
|---|---|
| Cyfnod y strategaeth | 2024-2030 |
| Trefniadau adolygu'r strategaeth | Caiff y strategaeth ei hadolygu'n flynyddol gan y Grŵp Cyflawni Cynaliadwyedd ac adroddir y canlyniadau i'r Bwrdd Gweithredol. |
| Adolygwyd ddiwethaf | Adolygwyd a chymeradwywyd y strategaeth ddiwygiedig gan y Bwrdd Gweithredol ar 18/09/2024. |

## D. Diben

Mae cynaliadwyedd wrth wraidd Prifysgol Bangor, fel y portreadir yn ein datganiad o weledigaeth yn Strategaeth 2030:

*'Prifysgol fyd-eang ei chysylltiadau, sy'n manteisio ar gyfleoedd i lwyddo trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol ac arloesol sy'n seiliedig ar effaith gydag ymrwymiad i gynaliadwyedd."*

Fel cymuned prifysgol, rhaid i ni weithredu mewn modd sy'n sicrhau bod anghenion ein myfyrwyr, ein staff a'n cymuned leol yn cael eu diwallu, heb gyfaddawdu ar allu'r rheini yn y dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i addysgu ac ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol, i wneud ymchwil blaenllaw, i fod yn gyflogwr blaenllaw, ac i gymryd rhan weithredol yn y gymuned. Er mwyn bod yn gynaliadwy, mae angen i'r brifysgol ddefnyddio'r adnoddau hynny sydd ar gael i ni nawr, a sicrhau bod

adnoddau tebyg yn parhau i fod ar gael i genedlaethau'r dyfodol. Os gall Prifysgol Bangor gynnal cydbwysedd rhwng anghenion adnoddau presennol ag anghenion cenedlaethau'r dyfodol, bydd wedi cyflawni nod sylfaenol cynaliadwyedd.

Felly mae cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Bangor yn bellgyrhaeddol, ac mae'n cynnwys popeth: o iechyd a lles ei staff, i ailgylchu yn ei neuaddau myfyrwyr; o gynnwys y cwricwlwm i'w gweithgareddau ymchwil.

Ym Mhrifysgol Bangor, cynaliadwyedd yw ffocws creiddiol ein hagenda ymchwil. Ein nod yw blaenoriaethu ymchwil rhyngddisgyblaethol sy'n mynd i'r afael â heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, gan anelu at ddatblygu datrysiadau arloesol sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn lleol ac yn fyd-eang. Mae ein hymchwilwyr wedi ymrwymo i hyrwyddo gwybodaeth sy'n cefnogi arferion a pholisïau cynaliadwy, gan sicrhau bod ein canfyddiadau'n cael effaith gadarnhaol a pharhaol ar gymdeithas.

Mae cynaliadwyedd hefyd wrth wraidd ein darpariaeth addysg a phrofiad myfyrwyr. Nod y brifysgol yw darparu cyfleoedd dysgu, projectau sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd, a gweithgareddau allgyrsiol sy'n grymuso myfyrwyr i gymryd rhan weithredol mewn ymddygiadau cynaliadwy a mabwysiadau'r ymddygiadau hynny eu hunain wrth iddynt ryngweithio â'u hamgylchedd dysgu, eu hamgylchedd byw a'u hamgylchedd cymdeithasol, gan sicrhau eu bod yn graddio fel stiwardiaid gwybodus a rhagweithiol dros gynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae'r strategaeth hon yn amlygu uchelgais Prifysgol Bangor, a'r camau allweddol y mae'n rhaid iddi eu cymryd, i gael ei derbyn fel y brifysgol fwyaf blaenllaw ym maes cynaliadwyedd, ar draws ei holl weithgareddau. Mae arnom eisiau bod *y* brifysgol a ddewisir gan y sawl sydd eisiau gwneud y byd yn lle mwy cynaliadwy a gwneud gwahaniaeth go iawn.

## E. Amcanion

### 1. Diffinio a Chyfathrebu Cynaladwyedd

Ochr yn ochr â chynaliadwyedd adnoddau naturiol, rydym hefyd angen cynaliadwyedd mewn materion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol: dyheadau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru, ac yn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Mae Prifysgol Bangor eisoes wedi cael cydnabyddiaeth trwy gyfrwng gwobrau amrywiol a safleoedd uchel mewn tablau cynghrair am ei hymrwymiad i gynaliadwyedd. Yn amlwg, serch hynny, mae arnom eisiau gwneud yn well a gwneud mwy. Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i ddod yn lle sydd hyd yn oed yn fwy ysbrydoledig i bobl weithio ac astudio. Byddwn yn ymdrechu i wella bywydau pawb yn rhanbarth Gogledd Cymru, ac ymhellach i ffwrdd, gyda'n hymchwil sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd a'n huchelgeisiau byd-eang. Bydd ein hymchwil yn cofleidio *holl* elfennau cynaliadwyedd, a bydd ein haddysgu yn creu graddedigion sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth i fyw bywydau cynaliadwy eu hunain yn ogystal â gallu cynyddu'r awydd hwnnw mewn pobl eraill.

Bydd cynnydd yn erbyn pob un o dargedau cynaliadwyedd Prifysgol Bangor yn cael ei hyrwyddo ledled cymuned y brifysgol ac ymhlith y cyhoedd yn ehangach. Ni fyddwn yn betrusgar ynglŷn â rhoi gwybod i bobl pa mor dda ydym, byddwn yn onest ac yn dryloyw ynghylch yr hyn yr ydym wedi'i wneud yn dda, ynghyd â ble y gallem wneud yn well. Bydd y dull hwn, ynghyd â gwneud yr hyn a wnawn ar sail tystiolaeth, yn helpu i sicrhau na allwn gael ein cyhuddo o 'wyrddgalchu'.

Cyfathrebu ein gwaith ar gynaliadwyedd a chefnogi ein staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol i ddeall cysyniadau bras cynaliadwyedd, a sut y gall pawb chwarae eu rhan:

1. <u>Staff</u> - drwy weithgareddau gan gynnwys: pwyllgorau cynaliadwyedd ein Colegau, a hyrwyddir gan Arweinwyr Cynaliadwyedd y Colegau; cynrychiolaeth gan y Colegau a'r adrannau gwasanaeth proffesiynol yng Ngrŵp Cyflawni Cynaliadwyedd y Brifysgol; hyfforddiant a gweithdai i staff; tudalennau gwe penodol ar gyfer cynaliadwyedd; addysgu, ymchwil a gweithgareddau eraill yn y brifysgol i ddangos bathodyn perthnasol Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig; erthyglau rheolaidd yn y Bwletin Staff.
2. <u>Myfyrwyr</u> - drwy weithgareddau gan gynnwys: aelodaeth o bwyllgorau cynaliadwyedd ein Colegau; erthyglau rheolaidd sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr ym Mwletin y Myfyrwyr; cynrychiolaeth myfyrwyr yn y Grŵp Cyflawni Cyflogadwyedd; tudalennau gwe penodol ar gyfer cynaliadwyedd; gwaith ar y cyd â chynrychiolwyr cynaliadwyedd yn Undeb y Myfyrwyr; gweithgareddau a chymdeithasau myfyrwyr i ddangos bathodyn perthnasol Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

3. Rhanddeiliaid allanol – tudalennau gwe cyhoeddus am gynaliadwyedd; hyrwyddo ymchwil y Brifysgol i gynaliadwyedd mewn cyfarfodydd â rhanddeiliaid a datblygu partneriaethau sy'n cyd-fynd â Strategaeth Ymgysylltu Dinesig y Brifysgol (yn enwedig eitemau 4 a 5).

**2. Gweithredu Cynaliadwyedd: Uchelgeisiol, amlwg, ac ar sail tystiolaeth**

Os yw Prifysgol Bangor am ddod yn arweinydd ym maes cynaliadwyedd, yna rhaid i ni fod yn uchelgeisiol yn y dyheadau yr ydym yn eu gosod i ni ein hunain. Bydd ein huchelgeisiau yn seiliedig ar dystiolaeth amlddisgyblaethol gadarn, gan dynnu oddi ar arbenigedd academaidd ac arbenigedd sylweddol arall y brifysgol, ar draws pob agwedd ar gynaliadwyedd. Mae gwybodaeth yr arbenigwyr hyn eisoes yn cael ei chyhoeddi mewn cyfnodolion ac adroddiadau gwyddonol ledled y byd, ac mae aelodau staff unigol a/neu adrannau eisoes yn ymgorffori gweithredoedd cadarnhaol sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd ledled y brifysgol.

Pan fo angen gweithredu, bydd y Grŵp Cyflawni Cynaliadwyedd yn sicrhau bod ganddynt grŵp neu unigolyn i arwain ar y gweithredu hwnnw, a chaiff y gwaith ei adolygu gan y Grŵp Cyflawni Cynaliadwyedd, neu gan bwyllgor perthnasol arall.

1. Uchelgeisiol: Ein nod yw cynnal y safleoedd uchel sydd gennym mewn amrywiol dablau cynghrair cynaliadwyedd, yn enwedig cynghrair prifysgolion Pobl & Planet a chynghrair The Times Higher Education Impact Rankings, a lle bo modd, gwella ar y safleoedd hynny. Byddwn yn cyflawni hyn trwy gymryd camau wedi'u targedu i wella cynaliadwyedd, ond hefyd trwy fonitro ac adrodd yn well ar gamau gweithredu trwy'r Grŵp Cyflawni Cynaliadwyedd, a thrwy bwyllgorau cynaliadwyedd y Coleg.
2. Amlwg: Mae'r Brifysgol wedi cytuno ar Ddull Lleihau Carbon, sy'n canolbwyntio ar dri llwybr gweithredu allweddol, yn seiliedig ar ymchwil sector cyfan: 1) Yr Amgylchedd Adeiledig, 2) Teithio yn y Brifysgol, a 3) Y Gadwyn Gyflenwi. Rydym yn cyhoeddi beth yw ein hallyriadau bob blwyddyn, felly byddwn yn amlwg yn gallu gweld a yw ein gweithredoedd yn gwneud gwahaniaeth.
3. Ar sail tystiolaeth: Mae Dull Lleihau Carbon y brifysgol yn seiliedig ar adroddiadau a data sydd ar gael. Pan fo angen cymryd camau byddwn wastad yn ceisio tystiolaeth i sicrhau bod y camau cywir yn cael eu cymryd. Pan nad yw tystiolaeth o'r fath ar gael bydd academyddion a gweithwyr proffesiynol perthnasol y Brifysgol yn gwneud ein hymchwil ein hunain.

**3. Cofleidio Cynaliadwyedd: Wrth wraidd popeth a wnawn**

Ein nod cyffredinol yw bod cynaliadwyedd yn dod yn rhan annatod o holl weithgareddau'r brifysgol, gyda'r bwriad o gael egwyddorion cynaliadwyedd yn rhan greiddiol o'r gweithgareddau hynny.

Mae arnom eisiau i Brifysgol Bangor fod yn gyfystyr â chynaliadwyedd. Mae arnom eisiau i syniadaeth gynaliadwy fod nid yn unig yn rhywbeth sy'n cael ei wneud ochr yn ochr â gweithgareddau eraill, ond yn rhan greiddiol o bopeth a wnawn: addysgu, hyfforddi a dyrchafu staff, ymchwil, marchnata, caffael, recriwtio, datblygu'r campws, ymddygiadau gweithio, patrymau teithio i'r gwaith, teithio ar fusnes, arlwyo, rheoli ystadau, cynnwys y gymuned ac iechyd a lles ein staff - ein bwriad yw sicrhau bod egwyddorion cynaliadwyedd yn rhan greiddiol o bob un o'r pethau hyn.

Er mwyn sicrhau mai Prifysgol Bangor fydd y brifysgol fwyaf cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig, byddwn yn:

- Darparu arweiniad clir mewn perthynas â chynaliadwyedd, drwy ein Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol (Cynaliadwyedd) a'r Grŵp Cyflawni Cynaliadwyedd.
- Gwella sut yr ydym yn rheoli'r campws a'r ystad fel yr amlinellir yn Strategaeth Ystadau'r Brifysgol.
- Creu cyfleoedd i bob myfyriwr sy'n dod i Brifysgol Bangor gael addysg unigryw ac wedi'i theilwra sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd ac wedi'i hategu gan fodiwlau y ceir credydau am eu gwneud sydd wedi'u mapio yn erbyn targedau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru, a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.
- Concordat ynghylch Cynaliadwyedd Amgylcheddol Ymarfer Ymchwil ac Arloesi - Roedd Prifysgol Bangor yn rhan o'r grŵp cychwynnol o lofnodwyr y concordat traws-sector hwn ym maes ymchwil ac arloesi yn y Deyrnas Unedig ac felly byddwn yn gweithredu ar y camau gofynnol ar draws pob maes ymchwil.
- Ymgorffori ein hethos a'n gweithgareddau cynaliadwy yng ngweithgarwch marchnata'r brifysgol, gan gynnwys ein negeseuon a'n hymgyrchoedd.
- Ceisio datblygu partneriaethau ystyrlon ar draws rhanbarth Gogledd Cymru (megis yr Eglwys yng Nghymru a Chadeirlan Bangor), ac yn genedlaethol (megis Ymddiriedolaethau Natur Cymru a'r Deyrnas Unedig), i hyrwyddo meysydd o ddiddordeb cyffredin sy'n ymwneud â'r agenda cynaliadwyedd a sicrhau bod y brifysgol yn cael ei chydnabod fel arweinydd ym maes cynaliadwyedd.
- Datblygu mentrau ar draws y Brifysgol i dargedu themâu cynaliadwyedd er mwyn hyrwyddo gweithgareddau ac ymddygiad cynaliadwy (e.e. digwyddiadau, ymgyrchoedd megis y system Hierarchaeth Deithio sydd i'w mabwysiadu ar draws y Brifysgol, a sicrhau bod y cludiant mwyaf carbon effeithlon yn cael ei ddefnyddio) a sicrhau bod yr holl addysgu, ymchwil a gweithgareddau'n cael eu mapio yn erbyn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

## F. Ffactorau Llwyddiant Hanfodol

Dyma brif fesurau llwyddiant Strategaeth 2030 y cytunodd y Cyngor a'r Is-ganghellor yn eu cylch. Cânt eu hadrodd i'r Cyngor fel rhan o adroddiad perfformiad integredig blynyddol y Brifysgol i roi sicrwydd bod y perfformiad yn ddigonol i wireddu amcanion strategol y Brifysgol.

| | |
|---|---|
| 1. | Lleihau allyriadau $CO_2e$ gwresogi tanwydd ffosil Cwmpas 1 gan o leiaf 3% y flwyddyn ar gyfartaledd |

## G. Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Dylai pob strategaeth gynnwys hyd at 3 dangosydd perfformiad allweddol ynghyd â tharged i bob un. Cânt eu hadrodd i'r Cyngor fel rhan o adroddiad perfformiad integredig blynyddol y Brifysgol i roi sicrwydd bod y perfformiad yn ddigonol i wireddu amcanion strategol y Brifysgol.

| | |
|---|---|
| 1. | Cadw ein safle ymhlith y 10% uchaf yn y Times Higher Education Impact Rankings. |
| 2. | Cynnal ein safle yn nosbarth 1af cynghrair prifysgolion People & Planet. |

## H. Dangosyddion Gweithredol

Bydd y pwyllgor sy'n gyfrifol am y strategaeth yn monitro'r cynnydd o ran pob un o'r amcanion trwy'r dangosyddion perfformiad allweddol ychwanegol hynny.

| | |
|---|---|
| 1. | Nifer y staff sy'n mynychu digwyddiadau hyfforddi ar thema cynaliadwyedd [amcan 4] |
| 2. | Cyflawni targedau cynaliadwyedd a gydnabyddir yn genedlaethol [amcan 2] |
| 3. | Ymgorffori materion sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd yn rhan o fodiwlau hyfforddedig [amcanion 1,4] |

| | |
|---|---|
| 4. | Nifer y straeon newyddion ac ymgyrchoedd marchnata sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd [amcan 3] |
| 5. | Traffig y wefan sy’n ymwneud â chynaliadwyedd [amcan 3] |
| 6. | Arolygon sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd [amcanion 1-4] |
| 7. | Y defnydd o ddŵr fesul CALl myfyrwyr/staff |